

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl yn cyflwyno modelau er mwyn disgrifio patrymau digwyddiadau sy'n digwydd mewn amser (fel daeargrynfeydd) ac mewn gofod (er enghraifft, rhywogaeth planhigyn yn dod i fodoli). Caiff sefyllfaoedd sy'n digwydd ar adegau arwahanol yn unig, yn cynnwys distryw gamblwr, eu hastudio. Caiff modelau tebygolrwydd eu datblygu ar gyfer y sefyllfaoedd hynny, fel lledaeniad epidemig, lle gall digwyddiadau ddigwydd unrhyw bryd. Daw'r modiwl i ben gyda sefyllfaoedd eraill sy'n ymwneud â thebygolrwydd, yn cynnwys geneteg a newidiadau ym mhrisiau'r farchnad stoc. Disgwylir i fyfyrwyr fod yn gymharol gymwys mewn calcwlws ac algebra.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- Profiad o addysgu prosesau stocastig cymhwysol, cadwyni Markov a phrosesau Markov ar lefel gradd
- y gallu a'r parodrwydd i ddarparu tiwtorialau wyneb yn wyneb ac/neu ar-lein, gan ddefnyddio deunyddiau y gall fod angen i chi eu paratoi, sy'n briodol ar gyfer y modiwl a'r myfyrwyr
- cyfarpar a sgiliau TG priodol
- y gallu a'r parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill yn anghydamseredig
 - meddalwedd tiwtorialau ar-lein y Brifysgol (rhoddir hyfforddiant)
 - marcio aseiniadau myfyrwyr a gyflwynir yn electronig ar y sgrin ar ffurf PDF

Gwybodaeth ychwanegol

- Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar fodolu sefyllfaoedd ymarferol a phriodweddau'r modelau, ond mae'n cynnwys swm rhesymol o fathemateg ar gyfer modiwl ar Lefel 3.
- Gan y bydd myfyrwyr ar y modiwl hwn yn gallu dewis cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA/EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMAs a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i wasanaeth TMA/EMA ar-lein y Brifysgol. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad sy'n cynnwys ymarfer marcio electronig neu dasg arall cyn cyfweiliad, rhoddir rhywfaint o arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	2
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	2.5

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan